



**YSGOL GYMRAEG PONTARDAWE**  
**Llythyr Diweddarau Rhagfyr 18<sup>fed</sup> / December 18<sup>th</sup> Update Letter**

**[www.npted.org/schools/primary/yggpontardawe](http://www.npted.org/schools/primary/yggpontardawe)**  
**[yggpontardawe@npt.school](mailto:yggpontardawe@npt.school)**  
**<https://twitter.com/YGGPontardawe>**

**Diweddariad am agor wedi gwyliau'r Nadolig / Update on school opening after the Christmas holidays**

Annwyl rieni a gofalwyr / *Dear Parents and Carers*

Wrth ysgrifennu'r cylchlythyr yr wythnos diwethaf, roedd yna deimlad gallai'r sefyllfa newid. Ers hynny, mae lefelau Covid-19 wedi cynyddu'n sylweddol ar draws y wlad yn uchel iawn yng Nghastell-nedd a Phort Talbot. Mewn trafodaethau rhwng y cynghorau lleol a'r llywodraeth ddoe, cytunwyd ar newidiadau i drefn ail agor ysgolion ym mis Ionawr. Oherwydd pryderon ynghylch cynnydd tebygol pellach erbyn mis Ionawr, mae Cyngor CNPT wedi diweddarau ei ganllawiau. Yn dilyn y diweddariad hwnnw, mae rhaid i'n ein trefniadau ni newid. Bydd yr ysgol ar gau ar Ddydd Llun y 4<sup>ydd</sup> a Dydd Mawrth 5<sup>ed</sup>. Gobeithiwn y bydd yr ysgol yn agor i ddisgyblion ar ddydd Mercher Ionawr 6<sup>ed</sup> gyda'r union fesurau ag y bu'r tymor hwn. Bydd cludiant hefyd, yn gweithredu fel arfer o ddydd Mercher 6<sup>ed</sup> Ionawr.

Ar ddechrau'r flwyddyn, efallai bydd angen adolygu'r dyddiad agor hwnnw yng ngoleuni gallu'r ysgol erbyn yr amser hynny. Mae'r ysgol wedi bod yn ffodus iawn hyd yn hyn, ond pe bai'r sefyllfa hon yn datblygu, byddwn yn cyfathrebu â chi cyn gynted ag y gallwn ar y 4<sup>ydd</sup> o Ionawr. Bydd ysgolion CNPT yn darparu ar gyfer dysgwyr bregus a phlant gweithwyr allweddol o ddydd Mercher Ionawr 6<sup>ed</sup> waeth beth yr heriau capasiti.

Gobeithio fod y plant wedi ymgysylltu'n dda â'u dysgu ar-lein yr wythnos hon. Rhowch wybod i'r ysgol trwy e-bost os ydych chi'n cael unrhyw anawsterau gyda HWB.

Gobeithio hefyd eich bod wedi cael amser i fwynhau'r fideo 'Dathliad Nadolig 2020'. Mae'r linc wedi cael ei rannu gyda phob rhiant a phlentyn trwy e-bost ar ddydd lau'r 17<sup>eg</sup> o Ragfyr. Bydd yn bosib i chi weld y fideo hyd ddydd Llun yr 21<sup>ain</sup> - wedi hynny byddwn yn tynnu'r fideo oddi ar y plattform.

Wedi'i atodi hefyd mae cylchlythyr y CRAF. Diolchwn iddynt am eu gwaith mewn cyfnod anodd a rhwystredig, yn enwedig am sicrhau fod Siôn Corn wedi gallu galw i'r ysgol.

*When writing last week's newsletter, there was a feeling that the situation could change. The level of Covid-19 infections have since risen significantly across the country with rates in Neath and Port Talbot extremely high. In discussions between councils and the government yesterday, changes were agreed for the re-opening of schools in January. Due to concerns regarding the likely escalation by January, NPT Council has updated its guidance. Our arrangements will have to change in line with the update. The school will now be closed on Monday 4<sup>th</sup> and Tuesday 5<sup>th</sup> of January. We plan to open to pupils on Wednesday January 6<sup>th</sup> with exactly the same measures in place as this term. Transport will operate normally from the same date.*

*This opening date may have to be reviewed on at the beginning of the year in light of the school's capacity at that point in time. The school has been very fortunate up until now, but should this situation develop, we will communicate to you as soon as we can on the 4<sup>th</sup> January. Schools in NPT will be providing for vulnerable learners and children of key workers from Wednesday January 6<sup>th</sup> regardless of capacity challenges.*

*We hope that the children have engaged well with their online learning this week. Please let the school know by email if you have any difficulties with HWB.*

*We also hope that you have enjoyed the '2020 Christmas Celebration' video. A link was sent to all parents and children via email on Thursday 17<sup>th</sup> of December. It will be possible to watch the video until Monday 21<sup>st</sup> - after this we will remove the video from the platform.*

*Also attached is the PTFA newsletter. A big thank you for their work in difficult and frustrating times, especially in ensuring Santa was able to visit school.*

**[www.npted.org/schools/primary/yggpontardawe](http://www.npted.org/schools/primary/yggpontardawe)**  
**[yggpontardawe@npt.school](mailto:yggpontardawe@npt.school)**  
**<https://twitter.com/YGGPontardawe>**

**Pwysig – Protocol Covid-19 / Important – Covid-19 Protocol**

Pe bai disgybl yn derbyn canlyniad positif hyd at 5:00yh ar ddydd Mawrth 22<sup>ain</sup> o Ragfyr, gofynnwn i rieni ddefnyddio'r protocol isod i hysbysu'r ysgol. Byddwn yn ail-ddechrau gweithio gyda Phrofi, Orlhain a Diogelu, o ddydd Llun 4<sup>ydd</sup> Ionawr. Rhwng yr amseroedd hyn, bydd angen i deuluoedd weithio gyda POD i olrhain cysylltiadau.

Os yw disgybl yn **derbyn canlyniad prawf positif** gofynnwn i rieni ddefnyddio'r protocol isod os gwelwch yn dda. E-bostiwch yr ysgol gyda'r canlynol (yggpontardawe@npt.school)

**Pwnc : “Pwysig – Covid”**

**Neges : “Cysylltwch â mi ar y rhif canlynol ...”**

Peidiwch gynnwys unrhyw wybodaeth arall ac fe gysylltwm â chi cyn gynted ag y bo modd.

*Should a pupil receive a positive test result up to Tuesday 22<sup>nd</sup> at 5:00pm we ask parents to use the protocol below to notify the school. We will re-commence working with Test, Trace and Protect from Monday 4<sup>th</sup> January. In between these times, families will need to work with TTP in tracing contacts.*

*In the event of a pupil testing positive for Covid-19, please email the school with the following (yggpontardawe@npt.school)*

*Subject: “Important - Covid”*

*Message: “Contact me on the following number ...”*

*Please do not include any other information and we will contact you as soon as we can.*

Fel yn y cylchlythyron blaenorol, gofynnwn yn garedig i chi ein e-bostio os nad yw'n hanfodol cysylltu â'r swyddfa. Diolch.

*As mentioned in previous newsletter, if speaking to the office directly is not absolutely essential, please email us instead. Thank you.*

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Cadwch yn saff

*Merry Christmas and Happy New Year*

*Stay safe*



Ceri Emanuel

Pennaeth / *Headteacher*

18.12.20

## Trefniadau Gollwng a Chasglu / *Drop off and Collection times*

Dosbarthiadau / <i>Classes</i>	Amser Gollwng / <i>Drop off slot</i>	Amser Casglu / <i>Collection slot</i>
Mr Owen (B6) a Mr Lewis (B5)	8:30 - 8:40am	2:40 - 2:50pm
Mrs Hogarth (B3), Mrs Richards / Mrs A Shields (B3&4) a Miss M Davies (B4)	8:40 - 8:50am	2:50 - 3:00pm
Miss Lewis (B2), Mrs Saunders (B1&2) a Miss Stephanie Davies (B1)	8:50 - 9:00am	3:00 - 3:10pm
Mrs Jones Fowler (D&B1), Mrs Jones / Mrs Morgan (Derbyn)	9:00 - 9:10am	3:10 - 3:20pm
Mrs Laura Evans (Meithin Bore / <i>Morning Nursery</i> )	9:10 - 9:20am	11:20 - 11:30am
Mrs Laura Evans (Meithin Prynawn / <i>Afternoon Nursery</i> )	12:15 - 12:25pm	2:25 - 2:35pm

## Dyddiadur 2020 - 2021 / *2020 - 2021 Diary*

Dydd Llun, Rhagfyr 21 <sup>ain</sup> <i>Monday, December 21<sup>st</sup></i>	HMS <i>INSET</i>
Dydd Mawrth, Rhagfyr 22 <sup>ain</sup> <i>Tuesday, December 22<sup>nd</sup></i>	HMS <i>INSET</i>
<b>Tymor y Gwanwyn</b> – bydd ysgol yn ail agor i ddisgyblion ar ddydd Mercher, Ionawr 6 <sup>ed</sup> <i>Spring Term</i> – <i>School will re-open for pupils on Wednesday, January 6<sup>th</sup></i>	
<b>Hanner Tymor</b> – Chwefror 15 <sup>fed</sup> i Chwefror 19 <sup>eg</sup> <i>Half Term</i> – <i>February 15<sup>th</sup> to February 19<sup>th</sup></i>	
<b>Gwylau Pasg</b> – Cau i ddisgyblion dydd Gwener, Mawrth 26 <sup>ain</sup> ac yn ail agor ar ddydd Llun, Ebrill 12 <sup>fed</sup> <i>Easter Holidays</i> – <i>School closes to pupils on Friday, March 26<sup>th</sup> and will re-open on Monday, April 12<sup>th</sup></i>	
Dydd Iau, Mai 27 <sup>ain</sup> <i>Thursday, May 27<sup>th</sup></i>	Mabolgampau Ysgol <i>School Sports Day</i>
<b>Hanner Tymor Sulgwyn</b> – Mai 31 <sup>ain</sup> i Fehefin 4 <sup>ydd</sup> <i>Half Term Whitsun</i> – <i>May 31<sup>st</sup> to June 4<sup>th</sup></i>	
Dydd Iau, Mehefin 17 <sup>eg</sup> <i>Thursday, June 17<sup>th</sup></i>	Diwrnod agored B6 yn Ysgol Gyfun Ystalyfera <i>Y6 Open Day in Ysgol Gyfun Ystalyfera</i>
Mawrth i Iau, Mehefin 24 <sup>ain</sup> i'r 27 <sup>ain</sup> <i>Tuesday to Thursday, June 24<sup>th</sup> to 27<sup>th</sup></i>	Diwrnod sgiliau B5 yn Ysgol Gyfun Ystalyfera <i>Y5 skills days in Ysgol Gyfun Ystalyfera</i>
Dydd Gwener, Gorffennaf 2 <sup>ail</sup> <i>Friday, July 2<sup>nd</sup></i>	Mabolgampau Clwstwr yn YG Ystalyfera (Tîm B3 – B6) <i>Cluster Sports at YG Ystalyfera (Y3 – Y6 Team)</i>
Dydd Gwener, Gorffennaf 9 <sup>fed</sup> <i>Friday, July 9<sup>th</sup></i>	B6 – Gig Siarter Iaith yn YG Ystalyfera <i>Y6 – Language Charter Gig at YG Ystalyfera</i>
Dydd Gwener, Gorffennaf 16 <sup>eg</sup> <i>Friday, July 16<sup>th</sup></i>	HMS <i>INSET</i>
<b>Gwylau'r Haf</b> – Cau i ddisgyblion dydd Iau, Gorffennaf 15 <sup>fed</sup> ac yn ail agor ar ddydd Gwener, Medi'r 3 <sup>ydd</sup> <i>Summer Holidays</i> – <i>School closes to pupils on Thursday, July 15<sup>th</sup> and re-opens on Friday, September 3<sup>rd</sup></i>	
Dydd Iau, Medi'r 2 <sup>ail</sup> <i>Thursday, September 2<sup>nd</sup></i>	HMS <i>INSET</i>